COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 1/2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 18 MEDI 2018, AM 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| CE Smith | HM Williams | D Patel | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

PJ White

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |

240. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd PJ White.

241. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

242. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: y byddai cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2018 yn cael eu cymeradwyo yn gofnod gwir a chywir.

243. MEYSYDD CHWARAE, CYFLEUSTERAU CHWARAEON AWYR AGORED A PHAFILIYNAU PARCIAU

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad i'r diben o geisio cymeradwyaeth y Cabinet i gynnal ymarfer ymgynghori ynghylch cynigion i sicrhau bod darpariaeth y Cyngor o ran meysydd chwarae, y cyfleusterau chwaraeon awyr agored a'r pafiliynau parciau yn fwy cynaliadwy yn ariannol yn y dyfodol.

Eglurodd mai'r Cyngor oedd prif ddarparwr y cyfleusterau chwaraeon awyr agored yn y Fwrdeistref Sirol. Felly, roedd y ddarpariaeth o ran y cyfleusterau hyn, er enghraifft lleiniau a meysydd chwarae, yn cael ei chydnabod yn rhan bwysig o'r gwaith o helpu i sicrhau ffyrdd iach o fyw, ynghyd â gwella lefelau llesiant corfforol a meddyliol ymhlith trigolion y Fwrdeistref Sirol.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod y Cyngor wedi codi ffi llogi sefydlog, yn hanesyddol, ar unrhyw achos ffurfiol o logi ei gyfleusterau chwaraeon awyr agored. Fodd bynnag, nid oedd y ffioedd hyn yn dod yn agos at dalu'r costau a oedd yn gysylltiedig â darparu'r cyfleusterau hyn, na chwaith eu cynnal a'u cadw. At hynny, nodwyd y byddai ansawdd y cyfleusterau a ddarperid yn amrywio i ryw raddau, a

hynny yn seiliedig ar ffactorau tebyg i ofynion cynghreiriau, cyfleusterau draenio a pha mor aml y caent eu defnyddio. Nodwyd bod y cyfleusterau chwaraeon awyr agored yn cael eu defnyddio gan fechgyn a dynion yn bennaf, ac, felly, bod yna broblemau cydraddoldeb posibl o ran y modd yr oedd y Cyngor yn dosbarthu cymorth ariannol ar y pryd. Er enghraifft, nid oedd chwaraeon yr oedd menywod a merched yn eu chwarae yn bennaf, e.e. pêl-rwyd, yn cael lefel debyg o gymhorthdal.

Roedd rhestr o bafiliynau parciau, meysydd chwarae a chyfleusterau chwaraeon awyr agored yr oedd y Cyngor yn eu darparu ar y pryd wedi cael ei chynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad.

Roedd adran ddilynol yr adroddiad yn crynhoi lefelau cyfredol y cymhorthdal, ynghyd â'r anhawster a fyddai'n codi wrth i gyflwr y cyfleusterau a oedd yn destun i'r adroddiad ddirywio pe na fyddai buddsoddiad yn cael ei neilltuo ar eu cyfer yn y dyfodol. Ychwanegodd fod gan y Cyngor adnoddau cyfyngedig i gynnal cyfleusterau o'r fath o dan ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyfredol. Felly, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod yna gydnabyddiaeth y byddai newid ffurfiol mewn polisi yn angenrheidiol, a fyddai'n golygu cynnydd sylweddol posibl mewn ffioedd, gyda hynny wedyn yn gatalydd i ysgogi rhagor o bobl i fanteisio ar gyfleoedd i Drosglwyddo Asedau Cymunedol. Nodwyd bod hwn yn rhywbeth yr oedd awdurdodau cyfagos eraill yn ei wneud, a hynny o ganlyniad i rwystrau ariannol tebyg yr oeddent hwythau yn eu hwynebu.

Yna, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau y byddai ymarfer ymgynghori yn cael ei gynnal a fyddai'n amlinellu cynigion ac opsiynau penodol i'w hymgorffori yn rhan o'r ymarfer hwn, a hynny i'r diben o lywio polisïau a strategaethau yn y dyfodol mewn perthynas â darparu meysydd chwarae, cyfleusterau chwaraeon awyr agored a phafiliynau parciau, yn ogystal â chodi tâl amdanynt, a chwilio am ffyrdd i gynnal y ddarpariaeth heb fod yn rhy ddibynnol yn ariannol ar yr Awdurdod.

Roedd Atodiad B i'r adroddiad yn cynnwys y ffioedd cyfredol ar gyfer defnyddwyr y cyfleusterau chwaraeon gwahanol, gan gynnwys manylion am y lefelau gwahanol o gymhorthdal, tra bo paragraff 4.2 yn yr adroddiad yn manylu ar y cynnig i ystyried ymestyn contract cyfredol y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol.

Roedd adran ddilynol yr adroddiad yn atgoffa'r Aelodau fod yna swm o £1 miliwn yn y rhaglen gyfalaf i gefnogi Trosglwyddo Asedau Cymunedol, er enghraifft pafiliynau chwaraeon, ac ati, er mwyn buddsoddi yn yr adeiladau yn rhan o unrhyw drosglwyddiad arfaethedig, a hynny yn amodol ar achos busnes.

Roedd paragraff 4.5 yn yr adroddiad yn amlinellu sylwadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol ar y cynigion cyfredol.

Daeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau â'i gyflwyniad i ben trwy ddweud wrth y Cabinet am oblygiadau ariannol yr adroddiad.

Yn eu tro, dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau, yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio a'r Arweinydd am anhawster yr Awdurdod i barhau i gynnal a chadw'r cyfleusterau uchod mewn modd digonol, a hynny mewn perthynas ag adnoddau. Felly, nodwyd ei bod yn angenrheidiol mynd ar drywydd y llwybr Trosglwyddo Asedau Cymunedol er mwyn cynnal a chadw'r cyfleusterau hyn mewn modd digonol yn y dyfodol, a sicrhau eu bod yn parhau i gael eu defnyddio.

Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd fod argymhellion yr adroddiad yn adlewyrchu gwir natur y sefyllfa, ynghyd â hyd a lled yr heriau ariannol yr oedd yr awdurdodau lleol yn eu hwynebu, a'i fod yn gobeithio y byddai'r broses ymgynghori yn un rhagweithiol a fyddai'n

cynorthwyo â'r gwaith o symud pethau yn eu blaen yn unol â'r hyn a gynigiwyd, yn hytrach na gorfod wynebu cau rhai cyfleusterau.

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Cabinet yn cymeradwyo cynnal ymarfer ymgynghori ynghylch cynigion i sicrhau bod darpariaeth y Cyngor o ran meysydd chwarae, y cyfleusterau chwaraeon awyr agored a'r pafiliynau parciau yn fwy cynaliadwy yn ariannol yn y dyfodol. Nodwyd hefyd y dylid ymestyn yr ymarfer ymgynghori i gynnwys rheoleiddwyr a chyrff Llywodraethu Chwaraeon Cenedlaethol, er enghraifft y Gymdeithas Bêl-droed (FA) ac Undeb Rygbi Cymru (URC).

(2) Bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol a'r Cabinet maes o law, a fyddai'n nodi canlyniadau'r ymarfer ymgynghori, ynghyd ag unrhyw gynigion i newid y modd yr oedd y Cyngor yn codi tâl am ddefnyddio ei feysydd chwarae, ei leiniau chwaraeon awyr agored a'i bafiliynau parciau, yn ogystal â'r modd yr oedd yn eu rheoli.

(3) Bod y Cabinet yn nodi y byddai achos busnes yn cael ei lunio i geisio am gyllid ychwanegol gan y Gronfa Rheoli Newid, a hynny ar ôl cymeradwyo argymhellion 9.1 a 9.2 yn yr adroddiad, ac y byddai'r Swyddog Adran 151 yn ei ystyried a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol yn ei gymeradwyo er mwyn ymestyn contract cyfredol y Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i ateb y galw o ran ceisiadau Trosglwyddo Asedau Cymunedol gan glybiau chwaraeon a sefydliadau eraill.

244. TROSGLWYDDO CWRT TENNIS YM MAES HAMDDEN PENCOED TRWY GYNLLUN TROSGLWYDDO ASEDAU CYMUNEDOL AC YSTYRIED Y GWRTHWYNEBIADAU A GAFWYD YN UNOL AG ADRAN 123(2A) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad a oedd yn cadarnhau bod Grŵp Llywio Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Cyngor wedi cymeradwyo trosglwyddo lesddaliad 35 mlynedd y Cwrt Tennis ym Maes Hamdden Pencoed i Gyngor Tref Pencoed ar 30 Hydref 2017. At hynny, gan fod y safle yn cynnwys man agored cyhoeddus, bu'n rhaid i'r Cyngor hysbysebu'r cynnig trosglwyddo asedau cymunedol yn unol ag Adran 123(2A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gan nodi y dylid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig erbyn 13 Gorffennaf 2018, fan bellaf.

Ychwanegodd fod yr adroddiad a oedd gerbron yr Aelodau yn amlinellu'r gwrthwynebiadau a oedd wedi dod i law, a bod gofyn i'r Cabinet ystyried yr adroddiad hwnnw a phenderfynu a ddylai'r Cyngor gwblhau'r gwaith o drosglwyddo lesddaliad y Cwrt Tennis er mwyn galluogi i Gyngor Tref Pencoed ei drawsnewid yn Barc Sglefrfyrddio. Ychwanegodd hefyd fod angen i'r Cabinet bwyso a mesur y cynnig hwn yng ngoleuni nifer helaeth o wrthwynebiadau a gyflwynwyd yn ei erbyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod y Cwrt Tennis dan sylw wedi ei leoli ym Maes Hamdden Pencoed, Heol Felindre, Pencoed, fel y dangosir yn y darn a oedd wedi'i arlliwio'n wyrdd yn Atodiad A i'r adroddiad.

Roedd yr adroddiad yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir arwyddocaol, ac roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau wedi cyfeirio'r Aelodau at Atodiad B, a oedd yn amlinellu'r ffioedd cyfredol i ddefnyddwyr y cyfleusterau chwaraeon hyn, yn ogystal â nodi manylion pellach am y lefelau cymhorthdal a'r incwm a gynhyrchir trwy logi'r cyfleusterau. Roedd yr adran hon o'r adroddiad yn nodi y byddai'r Parc Sglefrfyrddio yn cynorthwyo â'r gwaith o hybu iechyd da ac yn darparu gweithgaredd ychwanegol i bobl ifanc gymryd rhan ynddo, gweithgaredd a oedd yn dod yn gynyddol boblogaidd. Nodwyd bod Cyngor Tref Pencoed wedi cael rhywfaint o gyllid i ariannu cost cyfleuster o'r fath, a hynny trwy Gyllid Grant Cyfalaf Cyngor Tref/Cymuned, a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cabinet.

Roedd adran ddilynol yr adroddiad yn manylu ymhellach ar y gwrthwynebiadau a oedd wedi dod i law o ran y cynnig, fel y dangosir yn Atodiadau C a D i'r adroddiad.

Cyfeiriodd yr Aelodau at baragraff 4.11 o'r adroddiad a oedd yn rhestru ymatebion Cyngor Tref Pencoed i'r gwrthwynebiadau a oedd wedi dod i law.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod y Cwrt Tennis yn cael ei danddefnyddio a'i fod mewn cyflwr gwael, ac nad oedd digon o gyllid ar gael i'w ddiweddaru, tra bo Cyllid Grant Cyfalaf Cyngor Tref a Chymuned 2018-19 yn cynnig llwybr cyllido ar gyfer darparu'r datblygiad arfaethedig i greu Parc Sglefrfyrddio, a hynny gyda chyllid pellach gan Gyngor Tref Pencoed. Roedd wedi nodi'r rhesymau dros ei wrthwynebu, fel y nodir yn yr adroddiad, yn ogystal ag ymateb Cyngor Tref Pencoed i'r gwrthwynebiadau hynny, ac roedd yn fodlon cefnogi cynnig yr adroddiad trwy drefniant Trosglwyddo Asedau Cymunedol, a fyddai'n darparu cyfleuster hamdden amgen, a hynny yn seiliedig ar ei boblogrwydd ymhlith etholwyr yr ardal hon yn benodol.

Cefnogwyd hyn gan yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio a longyfarchodd Cyngor Tref Pencoed am gefnogi cyfleuster yr oedd galw mawr amdano yn y lleoliad dan sylw o ran hamdden a mwynderau.

Gofynnodd yr Arweinydd a allai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau gadarnhau a oedd pobl ifanc wedi cefnogi'r cynnig i ddarparu Parc Sglefrfyrddio trwy'r ymgynghoriad a oedd yn rhan o Strategaeth Adfywio a Chynllun Gweithredu Pencoed.

Cadarnhawyd hynny gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau.

Daeth yr Arweinydd â'r ddadl ar yr eitem hon i ben trwy gadarnhau na fyddai darparu'r cyfleuster hwn yn amharu ar ddarparu cwrt tennis yn y lleoliad hwn, neu mewn lleoliad arall ym Mhencoed, pe byddai tystiolaeth yn cael ei chyflwyno yn y dyfodol i brofi fod digon o alw amdano.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn awdurdodi trosglwyddo'r Cwrt Tennis ym Maes Hamdden Pencoed i Gyngor Tref Pencoed trwy drefniant trosglwyddo asedau cymunedol er mwyn ei ddatblygu yn Barc Sglefrfyrddio, a hynny ar ôl ystyried yr adroddiad a'r gwrthwynebiadau a oedd wedi dod i law mewn ymateb i'r Hysbysiadau a gyhoeddwyd yn unol ag Adran 123(2A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

245. RHESYMOLI GWASANAETHAU BYSIAU Â CHYMHORTHDAL 2018-2019

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am effaith cwtogi'r gwasanaethau bysiau â chymhorthdal, fel y nodwyd yn adroddiad y Cabinet ar 15 Mai 2018, yn ogystal â

chynnig bod y Cabinet yn cytuno i gynnal ymgynghoriad pellach ynghylch y cynnig i gael gwared â gweddill y cymhorthdal bysiau, fel y'i darperid gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20, a hynny yn rhan o arbedion arfaethedig Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer 2019-20 hyd at 2022-23.

Nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Llywodraeth Cymru yn cefnogi darparu gwasanaethau bysiau rhanbarthol a lleol trwy roi cymorthdaliadau i lwybrau nad oeddent o bosibl yn fasnachol hyfyw. Roedd y gwasanaethau hyn yn gwasanaethu llwybrau a oedd yn galluogi'r trigolion lleol i gyrchu cyflogaeth, addysg, gofal iechyd a gweithgareddau cymdeithasol.

Eglurodd fod cyllideb graidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer gwasanaethau bysiau â chymhorthdal bellach yn £180,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, sef 2018-19. Ategir at hyn gan ddyraniad gwerth £386,825 gan Lywodraeth Cymru a ddarperir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2018-19 trwy'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau, a nodwyd y dylid gwario swm targed o £85,224 ar gyllido gweithrediadau cludiant cymunedol yn y fwrdeistref sirol.

Nodwyd bod Cludiant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflwyno cais am grant gwerth £84,934.32 i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar 9 Gorffennaf 2018, gan adael balans o £301,890.68 i'w wario ar rwydwaith strategol graidd o fysiau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a hynny yn unol â nodiadau cyfarwyddyd Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau Llywodraeth Cymru.

Cyfeiriodd yr Aelodau at y Tabl ym mharagraff 3.6 yn yr adroddiad a oedd yn nodi'r llwybrau bysiau a oedd yn rhan o'r gostyngiad cyllidebol cytunedig ar gyfer 2018-19. Cytunwyd i ddefnyddio £50,000 o'r cyllid ychwanegol a godwyd trwy gynyddu'r Dreth Gyngor 4.5% (yn hytrach na'r cynnydd o 4.2% a gynigiwyd yn wreiddiol), a hynny er mwyn parhau â'r cymorthdaliadau ar gyfer y tri gwasanaeth bysiau a ddangosir ar frig y tabl (Gwasanaethau Rhif 51, 803 a 61) ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol.

I grynhoi, ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau fod y canlyniad o ran tynnu'r cymhorthdal wedi bod yn gadarnhaol iawn, ar y cyfan, a hynny wrth i bump o'r chwe llwybr cymhorthdal barhau i gael eu cadw a'u darparu yn fasnachol, er bod addasiadau neu ostyngiadau wedi cael eu gwneud o ran pa mor aml yr oeddent yn gwasanaethu, fel y manylir arnynt yn is-baragraffau paragraff 4.2 yn yr adroddiad.

Roedd adran ddilynol yr adroddiad yn amlinellu'r goblygiadau yn y dyfodol (ar gyfer y gwasanaeth), gan nodi hefyd y byddai angen rhoi ystyriaeth i gynnwys a goblygiadau llythyr a oedd wedi dod i law gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith, dyddiedig 02 Mai 2018, a oedd yn nodi'r canlynol: "O fis Ebrill 2019 ymlaen, bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol a fydd yn cael dyraniad gan y Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau ymrwymo i wario'r un swm o leiaf o'i gyllideb ei hun, er mwyn cefnogi rhwydweithiau bysiau a chludiant cymunedol yn ei ardal." Nodwyd bod y safbwynt hwn yn parhau i gael ei asesu'n briodol a bod yr awdurdod yn aros am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr union oblygiadau. Ychwanegodd y byddai'r ymarfer ymgynghori arfaethedig ynghylch dyfodol Gwasanaethau Bysiau â Chymhorthdal yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl.

Daeth â'r eitem hon i ben trwy amlinellu goblygiadau ariannol yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymunedau fod cynnal yr uchod yn ariannol yn parhau'n anodd o dan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, a bod y cyllid ychwanegol a gafwyd yn 2017-18 yn berthnasol am flwyddyn yn unig. Y gobaith oedd y byddai Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo â'r cyllid ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn, er nad dyna fu'r achos wedi hynny.

Ychwanegodd na ellid parhau i roi cymorth ariannol i wasanaethau bysiau â chymhorthdal, ac anogodd y cyhoedd i barhau i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau na fyddant yn cael eu colli.

Ychwanegodd yr Arweinydd ei fod yn annog y bobl hynny a oedd yn gymwys i gael y gwasanaeth hwn i brynu tocyn bws yn ôl disgresiwn, a fyddai'n cynorthwyo'r arfer o ddefnyddio'r math hwn o gludiant yn fwy, a bod angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn cludiant ar fysiau trwy gynllun Metro De Cymru hefyd, yn lle canolbwyntio yn unig ar ddarparu cysylltiadau trenau ychwanegol, a hynny er mwyn sicrhau gwasanaethau bysiau a fyddai'n fwy lleol ac yn gyflymach.

PENDERFYNWYD:

(1) Bod angen ystyried cynnwys yr adroddiad, a chytunwyd bod angen cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y cynigion, gan gynnal Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi hynny.

(2) Bod angen cyflwyno adroddiad pellach i gyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol a fyddai'n amlinellu canlyniadau'r ymgynghoriad, ynghyd ag Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, er mwyn galluogi i'r cynigion a amlinellir yn yr adroddiad gael eu hystyried.

246. PECYNNAU GOFAL CYMDEITHASOL A CHYMORTH PRIFYSGOL AR GYFER YMADAWYR GOFAL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant adroddiad (a oedd yn ychwanegol at yr adroddiad ar 30 Ionawr 2018), a oedd yn hysbysu'r Cabinet am fethodoleg yr ymgynghoriad a gynhaliwyd dros gyfnod o 12 wythnos, ynghyd â'i ganlyniadau, a hynny mewn perthynas â'r cymorth ariannol a ddarperir i ymadawyr gofal.

Atgoffwyd y Cabinet hefyd fod yr adroddiad hwn wedi cael ei lunio yng ngoleuni ymateb Llywodraeth Cymru i'r 'Adolygiad Diamond', sef adolygiad o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr yng Nghymru, a fyddai'n cael ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol (2018-19).

Yn olaf, roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i barhau â'r gwaith o lunio polisi, a hynny yn unol â'r opsiwn a ffefrir, sef Opsiwn 3, y cyfeirir ato yn yr adroddiad (ochr yn ochr â'r opsiynau eraill).

Eglurodd fod yr Awdurdod Lleol wedi darparu cymorth ariannol i alluogi ymadawyr gofal i fynd i brifysgol a chofrestru ar gyrsiau addysg uwch, a hynny am sawl blwyddyn, fel y nodir yn yr adroddiad blaenorol ar 30 Ionawr 2018. Nodwyd bod y cymorth ariannol hwn wedi galluogi pobl ifanc i dalu am lety yn ystod y tymor ac yn ystod y gwyliau, yn ogystal â thalu am y ffioedd dysgu a chael taliadau cynnal a chadw wythnosol.

Roedd adrannau dilynol yr adroddiad yn cadarnhau bod yna fwriad i gynyddu nifer yr ymadawyr ifanc a oedd yn gadael trefniadau gofal er mwyn mynd i Brifysgol, neu geisio am gyfleoedd cyflogaeth. Nodwyd hefyd y byddai'r polisi cyfredol a oedd ar waith yn cael

ei ystyried o hynny allan, ac y byddai'n cael ei adolygu yn unol ag Adolygiad Diamond; roedd rhai o gynigion yr adolygiad wedi'u hamlinellu yn y rhan hon o'r adroddiad.

Gan gyfeirio at y sefyllfa gyfredol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fod ymgynghoriad ynghylch y cynigion wedi cael ei gynnal dros gyfnod o 12 wythnos rhwng diwedd mis Chwefror a chanol/diwedd mis Mai 2018. Roedd tri opsiwn wedi cael eu cynnig mewn perthynas â hynny, ac roedd disgwyl i'r ymatebwyr roi eu sylwadau arnynt.

Nodwyd bod y prif ffigurau mewn perthynas ag ymatebwyr yr ymgynghoriad i'w gweld ym mharagraff 4.7 yn yr adroddiad, gan gynnwys natur y ffigurau hyn, ynghyd ag oedran yr ymatebwyr a'u rhywedd, ac ati, yn ogystal â data penodol eraill. Dywedwyd bod yr opsiynau dan sylw i'w gweld yn llawn ym mharagraff 4.9 yn yr adroddiad.

Roedd paragraff 4.28 yn yr adroddiad yn adlewyrchu'r modd yr oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi myfyrwyr ar y pryd, a hynny o gymharu â phedwar awdurdod cyfagos arall a grybwyllwyd. Nodwyd wedi hynny y rheswm yr oedd Opsiwn 3 yn cael ei ffafrio yng nghyd-destun yr awdurdod lleol.

Daeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cyhoeddus a Llesiant â'i chyflwyniad i ben trwy amlinellu goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â goblygiadau ariannol yr adroddiad.

Llongyfarchodd y Dirprwy Arweinydd yr Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol i Blant am eu gwaith yn cynorthwyo'r nifer o bobl ifanc a oedd yn gadael gofal ac yn dechrau ar gyfnodau mewn addysg uwch, yn ogystal â'u gwaith yn cynyddu nifer y rhai a oedd yn gwneud hynny.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod Opsiwn 3 yn adlewyrchu'r hyn y byddai'r rhieni yn ei ddarparu, gan mwyaf, tra bo'r Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn cefnogi'r elfen yn ôl disgresiwn yr oedd yr opsiwn a ffefrir yn ei gynnig, a fyddai'n arwain at lai o gostau ar gyfer y myfyrwyr.

Daeth yr Arweinydd â'r ddadl ar yr eitem hon i ben trwy nodi y dylai'r Aelodau fod yn falch, fel rhieni corfforaethol, o gynigion yr adroddiad a oedd yn decach ac yn fwy cyson na'r hyn a oedd ar waith ar y pryd. Dywedodd ei bod yn bwysig cefnogi myfyrwyr ifanc â 'chostau cychwynnol', er mwyn eu galluogi i brynu cyfarpar sylfaenol, er enghraifft haearn smwddio neu degell, ac ati, ac y dylid ymgorffori hyn yn rhan o'r cynllun.

Nododd hefyd ei bod yn bwysig adolygu'r cynllun wrth iddo fynd rhagddo, er mwyn ystyried ei effaith ac unrhyw gynnydd yn nifer y dysgwyr a fyddai'n manteisio arno. Daeth i'r casgliad fod hwn yn fater y gellid ei drafod yn fanylach mewn cyfarfod yn y dyfodol o Bwyllgor y Cabinet dros Rianta Corfforaethol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo Opsiwn 3, fel y'i disgrifir yn yr adroddiad, er mwyn rhoi'r polisi priodol newydd ar waith.

247. ENWEBIAD AR GYFER Y BWRDD CYMOEDD I'R ARFORDIR

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad er mwyn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i enwebu aelod-gynrychiolydd ar gyfer y Bwrdd Cymoedd i'r Arfordir (V2C).

Roedd yr adroddiad yn nodi rhywfaint o wybodaeth gefndir, ac wedi hynny, dywedodd y Prif Weithredwr fod cyfansoddiad y Bwrdd uchod wedi cael ei adolygu yn sgil newidiadau deddfwriaethol, a bod yn rhaid i'r Awdurdod ostwng nifer yr aelodau etholedig a enwebir ar gyfer y Bwrdd o dri aelod i un.

Gan ystyried y newid uchod, cynigiwyd felly y dylid enwebu un Aelod ar gyfer y Bwrdd diwygiedig.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fod Aelodau Etholedig cyfredol y Bwrdd, ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn cynnwys y Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd S Baldwin a hithau. Gan ystyried bod gan y Cynghorydd Baldwin gefndir proffesiynol ym maes Tai, cynigiodd ei fod yn parhau yn aelod o'r Bwrdd Cymoedd i'r Arfordir (a bod hithau a'r Cynghorydd Williams yn ymddiswyddo o'r Bwrdd). Cytunodd y Cabinet â'r awgrym hwn.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un o'r tri Aelod am eu hymrwymiad blaenorol i'r Bwrdd Cymoedd i'r Arfordir, a nododd ei bod yn bwysig cynnal y berthynas a'r cysylltiad cryf â'r sefydliad Cymoedd i'r Arfordir gan ei fod wedi darparu 6,000 o gartrefi i bobl yn y Fwrdeistref Sirol.

Ychwanegodd ei fod yntau a'r Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Tai, bellach yn cynnal cyfarfodydd chwarterol â Chadeirydd y Bwrdd, Prif Weithredwr y sefydliad a swyddogion Cymoedd i'r Arfordir er mwyn cynnal a datblygu'r cysylltiadau â'r sefydliad allweddol hwn yn y dyfodol.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cymeradwyo penodi'r Cynghorydd Stuart Baldwin yn gynrychiolydd etholedig ar gyfer y Bwrdd Cymoedd i'r Arfordir.

248. <u>RHEOLI ANSAWDD YR AER YN LLEOL – ADRODDIAD CYNNYDD BLYNYDDOL 2018</u>

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol adroddiad er mwyn rhannu â'r Cabinet Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2018 ar Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Nodwyd bod yn rhaid i'r adroddiad gael cymeradwyaeth y Cabinet cyn y gellid cyflwyno fersiwn terfynol ohono i Lywodraeth Cymru.

Roedd cynrychiolwyr ar ran y Gwasanaeth Cyd-reoleiddiol yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad, a chroesawyd hwy i'r cyfarfod gan yr Arweinydd.

Dywedodd aelod o'r tîm uchod, mewn ymgais i gyflwyno gwybodaeth gefndir, fod y broses Rheoli Ansawdd yr Aer yn Lleol yn gosod rhwymedigaeth statudol ar bob awdurdod lleol i adolygu ac asesu ansawdd yr aer yn eu hardaloedd yn rheolaidd, yn ogystal â phennu a fyddai'r amcanion o ran ansawdd yr aer, i'r diben o ddiogelu iechyd, yn debygol o gael eu cyflawni. Os bydd yna achosion o ormodiant, neu os byddai hynny'n debygol o ddigwydd, rhaid i'r awdurdod lleol ddatgan Ardal Rheoli Ansawdd Aer, yn ogystal â pharatoi Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer, a fyddai'n nodi'r mesurau y byddai'n bwriadu eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r amcanion.

Nodwyd bod yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn rhoi manylion y data a gadarnhawyd ar gyfer y gwaith o fonitro ansawdd yr aer a wnaed yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod 2017.

Cadarnhaodd y Swyddogion fod yr Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn cadarnhau bod ansawdd yr aer ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn gyffredinol, yn parhau i fodloni'r amcanion perthnasol o ran ansawdd yr aer, fel y'u pennir yn y Rheoliadau perthnasol. Fodd bynnag, nodwyd bod Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr yn ardal a oedd yn peri pryder, a hynny am y rhesymau a amlinellir ym mharagraff 4.3 hyd at baragraff 4.6 yn yr adroddiad.

Nodwyd y byddai'r Cyngor yn datgan Gorchymyn Rheoli Ansawdd Aer ar gyfer ardal Stryd y Parc ar ôl cyflwyno Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2018, a hynny yn unol â Chanllawiau Polisi Llywodraeth Cymru. Nodwyd y byddai adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod Cabinet yn y dyfodol, yn ogystal ag adroddiad technegol priodol a fyddai'n nodi'r rhesymau dros gyflwyno'r Gorchymyn. Cadarnhawyd hefyd y byddai angen rhoi Cynllun Gweithredu Drafft ar Ansawdd Aer ar waith.

Ychwanegodd Swyddog ar ran y Gwasanaethau Cyd-reoleiddiol fod Gweithgor wedi cael ei sefydlu gyda phartneriaid allweddol, a hynny er mwyn nodi'r rhesymau dros fethiant ansawdd yr aer i fodloni'r amcanion perthnasol.

Cadarnhawyd hefyd nad oedd unrhyw oblygiadau ariannol wedi deillio o'r adroddiad hyd hynny. Fodd bynnag, efallai y gallent ymddangos yn sgil ymgymryd â'r ymchwiliad yn llawn.

Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r Cyngor yn ystyried cais cynllunio mewn cyfarfod y diwrnod canlynol, ac y byddai ganddo ddiddordeb gwybod a fyddai'r gwaith estynedig a oedd i'w wneud yn yr ardal yn effeithio'n negyddol ar ansawdd yr aer yn y lleoliad hwn.

Atebodd Swyddog trwy ddweud y byddai hyn yn rhywbeth y byddai Rockwool yn ei fonitro, yn ôl pob tebyg, a hynny trwy ystyried unrhyw gynnydd mewn perthynas â symudiadau Cerbydau Nwyddau Trwm, ynghyd â'r allyriadau a allai ddeillio o hynny. Ychwanegodd y gallai'r Gwasanaeth ystyried y maes hwn ymhellach yn rhan o'i Adolygiad Ansawdd Aer ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Daeth yr Aelod Cabinet dros Gymunedau â'r ddadl hon i ben trwy ddweud y gallai fod yn ddoeth ystyried cynnal darlleniadau ansawdd aer tebyg yn Heol Walter, Pen-y-bont ar Ogwr, gan fod nifer helaeth o gerbydau yn ciwio yn y lleoliad hwnnw, ac y gallent gyfrannu at allyriadau cerbydau ychwanegol.

<u>PENDERFYNWYD:</u>

(1) Bod y Cabinet yn cymeradwyo Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2018 ar Reoli Ansawdd yr Aer yn Lleol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (gweler y ddogfen yn Atodiad 1 i'r adroddiad), a hynny er mwyn cyflwyno fersiwn terfynol ohono i Lywodraeth Cymru cyn 30 Medi 2018.

(2) Bod y Cabinet yn nodi y byddai'n cael adroddiad pellach ar y gofyniad i ddatgan Ardal Reoli Ansawdd yr Aer ar gyfer Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr.

249. <u>ADRODDIADAU GWYBODAETH I'W NODI</u>

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol adroddiad er mwyn rhoi gwybod i'r Cabinet am yr Adroddiadau Gwybodaeth i'w Nodi a gyhoeddwyd oddi ar ei gyfarfod blaenorol, a oedd yn cynnwys y canlynol:

1. Alldro Rheoli Trysorlys Blynyddol 2017-18
2. Adolygiad o'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2018-19
3. Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid 2018-19

Mewn cysylltiad â'r ddwy eitem gyntaf a nodir uchod, diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Swyddogion Cyllid am reoli adnoddau'r Cyngor mewn modd darbodus trwy gyfnodau a oedd yn parhau'n heriol.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet dros Lesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol fod yr adroddiad ar y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn ddeunydd diddorol i'w ddarllen, a dywedodd ei bod yn falch o weld gostyngiad yn nifer y bobl ifanc a oedd yn cael eu derbyn i'r System Cyfiawnder Ieuenctid, a bod rhagor o waith yn cael ei wneud mewn ymgais i leihau'r achosion o aildroseddu. Manteisiodd hefyd ar y cyfle hwn i ddiolch i Caroline Dyer, a oedd ar fin ymddeol, am ei holl waith caled a'i hymrwymiad i'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid, ynghyd â'i dyletswyddau perthnasol cysylltiedig eraill yn y maes hwn.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod llai o blant yn cael eu hanfon i'r carchar a'u cynnwys yn y system cyfiawnder troseddol nag a oedd o'r blaen. Adleisiodd yntau eiriau'r siaradwr blaenorol mewn perthynas â Caroline Dyer, gan ddymuno ymddeoliad hapus iddi.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cabinet yn cydnabod y byddai'r dogfennau a restrir yn yr adroddiad yn cael eu cyhoeddi.

250. <u>EITEMAU BRYS</u>

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:00